# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy: Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach** |
| **Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | **Matt Edwards**<br>**Polisi Deddfwriaeth** |
| **Adran:** | **LPGU** |
| **Pennaeth yr Is-adran/Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):** | **Spencer Conlon** |
| **Ysgrifennydd y Cabinet/Gweinidog cyfrifol:** | **Julie James AS, Y Gweinidog Newid Hinsawdd** |
| **Dyddiad Dechrau:** | **Ionawr 2024** |

## ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

### Nodau

Nod cyfunol y cynigion a gynhwysir yn y bil ac a fanylir arnynt o fewn **Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy: Egwyddorion Amgylcheddol, Targedau Llywodraethu a Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach** ("y papur gwyn") yw cryfhau a gwella ein hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Mae'r bil arfaethedig yn cefnogi'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio sef "gweithio tuag at sefydlu Corff Llywodraethu Amgylcheddol, dyletswydd statudol a thargedau ar gyfer diogelu ac adfer bioamrywiaeth". Hefyd, yn ei ddatganiad deddfwriaethol ym mis Mehefin 2023 fe wnaeth y Prif Weinidog ymrwymo i gyflwyno Papur Gwyn erbyn mis Ionawr 2024 a Bil i sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol i Gymru, yn ystod tymor y Senedd hon

Bydd effeithiau a manteision y cynigion hyn yn disgyn ar draws sawl sector a byddant yn gwella ein gallu cyfunol i fynd i'r afael â'r heriau hinsawdd a natur sydd o'n blaenau ac ymateb iddynt.

Mae'r cynigion strategol yn y papur gwyn wedi'u rhannu'n dair rhan, fel a ganlyn:

*Rhan A – Egwyddorion Amgylcheddol*

1. Gwreiddio pum egwyddor amgylcheddol yr UE yn neddfwriaeth Cymru
   i. Yr egwyddor integreiddio
   ii. Yr egwyddor ragofalus
   iii. Yr egwyddor y dylid cymryd camau ataliol
   iv. Yr egwyddor y dylid rhoi blaenoriaeth i gywiro unrhyw niwed amgylcheddol yn y ffynhonnell
   v. Yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu.

2. Cyflwyno Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i egluro sut y bwriedir i'r egwyddorion amgylcheddol gael eu dehongli.
3. Gosod Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i'r egwyddorion amgylcheddol a'r canllawiau cysylltiedig wrth ddatblygu eu polisïau a'u deddfwriaeth.

*Rhan B – Corff Llywodraethiant Amgylcheddol*

1. Cryfhau trefniadau llywodraethiant amgylcheddol yng Nghymru drwy greu corff llywodraethu amgylcheddol statudol gyda'r diben o oruchwylio'r sut mae Gweinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus Cymru yn gweithredu cyfraith amgylcheddol yng Nghymru ac yn cydymffurfio â hi.
2. Rhoi swyddogaethau i'r corff allu cyflawni'r diben hwn, gan gynnwys:

   a) Cefnogi monitro ac adrodd drwy bwerau casglu data a dyletswyddau i adrodd, gan gynnwys monitro targedau statudol sy'n berthnasol i gyfraith amgylcheddol.
   b) Galluogi rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar newidiadau i gyfraith amgylcheddol, polisi ehangach a materion cydymffurfio systematig; neu i awdurdodau cyhoeddus Cymru ar ôl ystyried cwynion nad ydynt yn gwarantu ymchwiliad llawn a/neu le nad oes angen cymryd camau gorfodi ffurfiol o bosibl.
   c) Galluogi cwynion a sylwadau am swyddogaeth a gweithrediad cyfraith amgylcheddol gan y cyhoedd i gael eu hystyried.
   d) Pwerau ymchwilio er mwyn helpu i gasglu tystiolaeth a chraffu effeithiol ar ddiffyg cydymffurfio honedig â chyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus Cymru.
   e) Pwerau gorfodi i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus Cymru, gan gynnwys uwchgyfeirio i'r llysoedd, adolygiad barnwrol ac ymyrraeth mewn achosion sifil.
   f) Mesurau i gefnogi gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau perthnasol allweddol, megis swyddfa diogelu'r amgylchedd, yr ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus ac ati.
3. Nodi beth fydd cyfansoddiad y corff, gan gynnwys ei fodel gweithredu, proses benodi a chyllid.

*Rhan C - Targedau statudol i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth*

1. Cyflwyno targed pennawd natur-bositif i *'wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth gyda gwelliant yn statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a'u hadferiad yn amlwg erbyn 2050'* gyda'r nod o lywio uchelgais a chamau gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur.
2. Rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod cyfres o dargedau statudol i gefnogi bioamrywiaeth trwy is-ddeddfwriaeth i gefnogi'r targed pennawd natur-bositif, yn ogystal â phwerau i gynnwys targedau interim a diwygio, dirymu neu ddisodli'r targedau bioamrywiaeth i fynd i'r afael â'r argyfwng natur.
3. Cryfhau gweithredu, monitro ac adrodd ar y targedau.
4. Rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth hirdymor statudol ar gyfer Cymru sy'n nodi sut y byddwn yn cyflawni ein targedau bioamrywiaeth.
5. Rhoi dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus allweddol i sicrhau eu bod yn cyfrannu at gyflawni'r targedau bioamrywiaeth.

## <u>Cyd-destun</u>

### Hirdymor

Pa dueddiadau, heriau a chyfleoedd hirdymor a allai effeithio ar y cynnig?

Gan gydnabod y bygythiadau dybryd a achosir gan newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth, fe wnaeth Llywodraeth Cymru a'r Senedd ddatgan argyfwng hinsawdd yn 2019 ac argyfwng natur yn 2021. Er mwyn mynd i'r afael â'r argyfyngau deuol hyn, gosododd Llywodraeth Cymru dargedau uchelgeisiol fel allyriadau nwyon tŷ gwydr sero-net erbyn 2050 a 30% o ardaloedd gwarchodedig erbyn 2030. Mae hefyd wedi gweithredu mentrau amrywiol i amddiffyn bioamrywiaeth ac adfer cynefinoedd naturiol. Nod yr ymdrechion hyn yw cydbwyso heriau byrdymor â gwella'r amgylchedd yn yr hirdymor.

Ers datgan argyfwng natur, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r argyfwng bioamrywiaeth, gan gynnwys:

- Gweithredu argymhellion yr archwiliad dwfn bioamrywiaeth a oedd yn canolbwyntio ar ymateb Cymru i'r targed byd-eang '30 erbyn 30' er mwyn amddiffyn a rheoli 30% o'n tir, ein dyfroedd croyw a'n moroedd erbyn 2030.
- Datblygu a gweithredu'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur sy'n ceisio gwella cyflwr a chysylltedd ein rhwydwaith safleoedd gwarchodedig gan gyfrannu at ein hymrwymiadau rhyngwladol megis '30 erbyn 30'. Mae'r rhaglen hon hefyd yn annog ymgysylltu â'r gymuned a chynyddu'r gallu i ddatblygu amrywiaeth o brosiectau i alluogi ein cynefinoedd a'n rhywogaethau mwyaf gwerthfawr i ffynnu.
- Mae mentrau fel y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a'r Goedwig Genedlaethol i gyd yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfwng natur yn ogystal â'r argyfwng hinsawdd sy'n sbardun allweddol i golli bioamrywiaeth.
- Sicrhau bod mynd i'r afael â bioamrywiaeth yn elfen allweddol o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a gaiff ei lansio yn 2025.
- Diweddaru Polisi Cynllunio Cymru i ddarparu eglurder pellach ar sicrhau budd net ar gyfer bioamrywiaeth trwy gymhwyso'r dull fesul cam, pwyslais cryfach ar ddefnyddio dull rhagweithiol o ymdrin â seilwaith gwyrdd a dull cryfach o ddiogelu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).
- Cynllun Grant Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n cefnogi cynigion i wella dealltwriaeth o bwysau a chyflwyno mesurau i wella rheolaeth o'n rhwydwaith, gan gyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfwng natur.

Nod cynigion y papur gwyn yw cydbwyso'r heriau byrdymor a hirdymor a achosir gan y ddau argyfwng hyn.

Yn y tymor byr, byddwn yn manteisio ar y cyfle i gryfhau llywodraethiant amgylcheddol mewn ffordd sy'n addas i Gymru, wrth gau unrhyw fylchau yn y Fframwaith Llywodraethiant Amgylcheddol a grëwyd pan ymadawodd y DU â'r UE. Wrth wneud hynny, bydd y fframwaith newydd yn ysgogi gwelliant amgylcheddol yn y tymor hir.

Bydd sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol pwrpasol i Gymru hefyd yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu yn y tymor byr, trwy allu cymryd camau gorfodi i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio. Hefyd, bydd mewn sefyllfa dda i gynnig dealltwriaeth ac arbenigedd penodol dros y tymor hir i lywio polisi amgylcheddol a phenderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn y dyfodol.

Ar ben hynny, bydd fframwaith targed yn cael ei greu i gyflawni uchelgeisiau hirdymor Llywodraeth Cymru i ysgogi gwaith diogelu'r amgylchedd a gwrthdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru.

## Atal

- *Sut mae'r cynnig yn cefnogi torri cylchoedd negyddol fel tlodi, iechyd gwael, difrod amgylcheddol a cholli bioamrywiaeth?*

Bydd cymryd camau ataliol i leihau effeithiau difrod amgylcheddol, yn ogystal ag adfer bioamrywiaeth o fudd i iechyd y cyhoedd, yr amgylchedd naturiol a'r gymdeithas ehangach. Yn benodol, bydd y cynigion polisi ar gyfer y Bil hwn yn mynd i'r afael yn bennaf â chylchoedd negyddol yn ymwneud â difrod amgylcheddol a cholli bioamrywiaeth trwy:

a. wreiddio egwyddorion amgylcheddol wrth lunio polisi, gan sicrhau bod diogelu'r amgylchedd wrth wraidd penderfyniadau Gweinidogion Cymru.
b. sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol a fydd yn ystyried gweithrediad cyfraith amgylcheddol yn ogystal â chymryd camau angenrheidiol yn erbyn y rhai nad ydynt yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan gyfraith amgylcheddol, llawer ohonynt wedi'u cynllunio i wella a diogelu'r amgylchedd naturiol.
c. cyflwyno targedau bioamrywiaeth sydd â'r nod uniongyrchol o ddiogelu ac adfer natur.

- *Sut y gallai'r cynnig leihau ei effeithiau negyddol ei hun e.e. lleihau gwastraff a'r defnydd o adnoddau, allyriadau ac effaith ar ansawdd aer, effaith negyddol ar gydlyniant cymdeithasol / cymunedol?*

Mae'r cynigion a gynllunnir drwy gyflwyno'r Bil Llywodraethiant Amgylcheddol a Bioamrywiaeth yn fesurau sydd â'r nod o gryfhau amddiffyn ac adfer yr amgylchedd.

Nod y Bil yw rhoi ar waith y gyfres o egwyddorion amgylcheddol sydd wedi llywio'r gyfraith a'r broses o lunio polisïau yn yr UE a Chymru ers 40 mlynedd a mwy. Mae pwyslais yr egwyddorion amgylcheddol ar atal niwed amgylcheddol. Nod arall y Bil yw llenwi'r bwlch llywodraethiant drwy gyflwyno corff llywodraethiant a fydd yn helpu i sicrhau nad yw hawliau amgylcheddol yn cael eu hatchwelyd ac er mwyn parhau â hawl dinasyddion i ddwyn y llywodraeth i gyfrif. Nod cyflwyno targedau bioamrywiaeth drwy'r bil yw sicrhau effeithiau sy'n atal ac yn gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth sy'n sail i weithrediad iach ecosystemau a'u gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau ecosystem hanfodol neu fuddion i'n llesiant.

Mae bioamrywiaeth yn gymhleth ac yn ddynamig ac felly mae nodi'r targedau cywir yn hanfodol os am sbarduno'r camau mwyaf priodol a mynd i'r afael â'r materion allweddol sydd wrth wraidd colli bioamrywiaeth. Mae angen i ni wneud gwaith dadansoddi a modelu cadarn gan ei bod yn hanfodol cael y dadansoddiad o fanylion penodol y targedau yn gywir i sicrhau nad ydym yn achosi canlyniadau anfwriadol yn y maes cymhleth hwn gydag effeithiau niweidiol posibl.

Gallai canlyniadau targedau sydd wedi'u cynllunio'n wael fod yn ddrud i'w gweithredu, achosi canlyniadau andwyol a bod yn wleidyddol niweidiol o bosibl.
Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol drwy ddatblygu'r corff llywodraethiant a'r targedau bioamrywiaeth i sicrhau nad ydym yn achosi canlyniadau anfwriadol i bobl neu gymunedau o ganlyniad i'r gwaith hwn.

Mae canlyniadau ariannol cynigion y Bil hefyd, sy'n cael eu hystyried ymhellach o fewn yr asesiad effaith rheoleiddiol.

- *Ydy'r cynnig yn trin symptom neu'r achos sylfaenol? Os felly, sut? Os yw'n trin symptom, beth y gellir ei wneud am yr achos sylfaenol?*

Mae'r cynigion yn y bil hwn yn ceisio mynd i'r afael â symptomau ac achosion sylfaenol materion sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd.

Bwriad gwreiddio egwyddorion amgylcheddol craidd yn llyfr statud Cymru yw creu sail ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y dyfodol, ac mae'n cefnogi deddfwriaeth gyfredol fel Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bwriad y corff llywodraethiant amgylcheddol yw trin 'symptomau' sy'n cyfrannu at gylchoedd negyddol yn ymwneud â cholli bioamrywiaeth a diogelu'r amgylchedd, drwy sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus perthnasol Cymru yn cael eu dwyn i gyfrif am unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol a sefydlwyd i gryfhau amddiffyniadau a gwrthdroi tueddiadau negyddol.

Bydd y targedau bioamrywiaeth yn cael eu sefydlu i fynd i'r afael yn uniongyrchol ag achos sylfaenol colli bioamrywiaeth yng Nghymru drwy osod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus i gymryd camau gweithredol i wrthdroi'r duedd hon.

## Integreiddio

- *Sut y gallai'r cynnig hwn gysylltu â gwahanol agendâu polisi cyhoeddus a chyfrannu atynt, a chreu manteision lluosog e.e. sut y gall prosiect trafnidiaeth gefnogi gwelliannau mewn iechyd neu ddiwylliant neu leihau nifer y bobl sydd heb waith?*

Mae cysylltiad cryf rhwng ansawdd yr amgylchedd ac iechyd pobl. Er enghraifft, gall llygredd aer gyfrannu at broblemau iechyd anadlol a chardiofasgwlaidd. Gall llygredd dŵr arwain at heintiau a chlefydau fel colera a theiffoid. Mae polisïau amgylcheddol Llywodraeth Cymru, a'r ddeddfwriaeth sy'n cefnogi'r polisïau hyn, eisoes yn ymroi i fynd i'r afael â'r effeithiau hyn, a bydd y cynigion yn cryfhau'r rhain ymhellach drwy gryfhau llywodraethiant amgylcheddol.

Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i leihau allyriadau o'r sector trafnidiaeth i adlewyrchu'r cyfraniad mawr tuag at nwyon tŷ gwydr a llygryddion eraill.

O ran yr economi, mae dull Llywodraeth Cymru o weithredu datblygu cynaliadwy yn ceisio cydbwyso'r angen i warchod ein hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn erbyn cyfleoedd ar gyfer datblygu economaidd. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu nifer o bolisïau sy'n ceisio creu economi werdd sy'n amgylcheddol gynaliadwy a ffyniannus. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo coedwigaeth ac amaethyddiaeth gynaliadwy, datblygu mentrau economi gylchol gyda'r nod o leihau gwastraff a defnydd o adnoddau, yn ogystal â swyddi a busnesau newydd yn yr economi werdd.

Yn gyffredinol, mae polisi amgylcheddol Llywodraeth Cymru yn cael llawer o effeithiau cadarnhaol ar feysydd eraill o bolisi cyhoeddus. Mae'n helpu i wella iechyd y cyhoedd,

lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, a chreu economi fwy cynaliadwy. Mae cynigion polisi yn y bil arfaethedig yn ceisio cefnogi'r meysydd integredig hyn yn uniongyrchol trwy gryfhau cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol, yn ogystal ag adfer bioamrywiaeth ledled Cymru.

- *Pa gamau ymarferol rydych wedi'u cymryd i integreiddio eich cynnig â'r Rhaglen Lywodraethu, amcanion a chynlluniau llesiant, yn ogystal â rhai cyrff cyhoeddus eraill a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, i wneud y mwyaf o gyfraniad y cynnig ar draws y saith nod llesiant?*

Mae'r cynigion yn adlewyrchu cyhoeddiad y Prif Weinidog ar ymrwymiad y Llywodraeth i gyflwyno deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd hon i sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol i Gymru a chyflwyno dyletswydd a thargedau statudol i ddiogelu ac adfer bioamrywiaeth. Yn fwy strategol, bydd y cynigion yn cefnogi nod y Rhaglen Lywodraethu o *ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn* trwy roi egwyddorion amgylcheddol wrth wraidd penderfyniadau Gweinidogion Cymru, gan sicrhau bod modd cymryd camau yn erbyn y rhai nad ydynt yn cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, yn ogystal â chyflwyno targedau sydd â'r nod uniongyrchol o ddiogelu ac adfer natur.

Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus arfaethedig yn rhoi cyfle pellach i brofi'r cynigion hyn gyda chyrff cyhoeddus a byrddau cyhoeddus, ac yn y pen draw sicrhau bod y cynigion cyffredinol yn cyfrannu'n gryf at y saith nod llesiant. CC

## Cydweithio

### Cydweithio

- *Pwy yw'r partneriaid sydd â buddiant cyffredin yn y cynnig hwn?*
- *Sut y mae'r partneriaid hynny wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynnig a chynllunio'r modd y caiff ei gyflawni, a beth fydd eu cyfraniad ato?*

Mae'r Bil hwn yn cefnogi polisi strategol Llywodraeth Cymru a ffurfiwyd i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Datblygwyd cynigion y Bil mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid a grwpiau mewnol ac allanol. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn 2019 ar 'Egwyddorion a threfniadau llywodraethu amgylcheddol ar ôl ymadael â'r UE', ac roedd yn gyfle da i randdeiliaid ar draws y sbectrwm gyfrannu syniadau cychwynnol.
Yn dilyn yr ymgynghoriad, fe wnaeth Gweinidogion Cymru gynnull Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid Llywodraethu Amgylcheddol ('y Grŵp Gorchwyl') a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol i weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu ein syniadau ymhellach. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a chan y grŵp gorchwyl wedi bod yn sail i'r cynigion ynghylch yr egwyddorion amgylcheddol a'r corff llywodraethiant.

Er nad oes gan Gymru gorff llywodraethiant amgylcheddol parhaol ar waith hyd yma, penodwyd Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru ar 1 Mawrth 2021. Rôl yr Asesydd yw ystyried materion yn ymwneud â gweithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru a chyflwyno adroddiadau ar faterion o'r fath i Weinidogion Cymru yn nodi ei argymhellion. Mae'r Asesydd hefyd yn darparu dull i aelodau'r cyhoedd allu cyflwyno sylwadau am weithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru, ac mae wedyn yn ystyried dilysrwydd y sylwadau hynny a gall argymell unrhyw gamau y mae'n angenrheidiol i

Weinidogion Cymru eu cymryd yn nhyb yr Asesydd. Mae profiad rhanddeiliaid a’r Asesydd wedi’i adlewyrchu yn y cynigion cyffredinol ar gyfer y corff llywodraethiant.

Bydd proses ymgysylltu pellach yn cael ei datblygu a'i chynnal wrth gyflawni'r Asesiad Effaith Integredig Llawn, gan gynnwys canlyniad ymgynghoriad mis Ionawr ar y papur gwyn, yn ogystal â gwaith ymgysylltu penodol â grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

## Cynnwys

### Cynnwys

- *Sut y mae pobl a gaiff eu heffeithio gan y cynnig wedi'u cynnwys yn y gwaith o’i ddatblygu?*

Mae papur gwyn 2024 yn adeiladu ar waith ymgysylltu blaenorol a gynhaliwyd drwy ymgynghoriad 2019; ymatebion pwyllgor; grwpiau gorchwyl rhanddeiliaid ac adroddiadau a gyhoeddwyd gan Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd.

Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid Llywodraethu Amgylcheddol ('y Grŵp Gorchwyl') yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2019 i ddarparu argymhellion pellach er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch llywodraethiant yng Nghymru.

Yn ystod haf 2023 bu'r Gweinidog Newid Hinsawdd yn gweithio gyda grŵp o arbenigwyr ac ymarferwyr allweddol i gynnal Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth[1]. Ffocws yr archwiliad dwfn oedd datblygu argymhellion i gynorthwyo i ddiogelu a rheoli’n effeithiol o leiaf 30% o’n tir, ein dŵr croyw a’n môr ar gyfer natur erbyn 2030. Argymhelliad hirdymor allweddol gan y grŵp hwn oedd *"datblygu deddfwriaeth sylfaenol i osod targedau adfer natur cyffredinol a sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol i'w gosod mor gynnar â phosibl yn nhymor y Senedd hon, a chyfres o dargedau adfer natur statudol manylach sy'n canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau amgylcheddol a sicrhau cyfraniad Cymru at y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang ôl-2020".* Mae'r cynigion polisi yn ceisio cyflawni'r argymhelliad hwn.

- *Beth sy'n bwysig i'r bobl sydd wedi'u heffeithio gan y cynnig a sut y gellid eu cynnwys yn y gwaith o'i gyflawni?*

Gallai cynigion y bil gael cryn effaith ar lawer o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, yn y ffyrdd canlynol:

1. Dyletswydd bosibl ar awdurdodau cyhoeddus Cymru i ystyried egwyddorion amgylcheddol.
2. Dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus Cymru i gydymffurfio â'r corff llywodraethiant amgylcheddol, gan gynnwys mewn perthynas â dyletswydd gyffredinol i gydymffurfio, darparu gwybodaeth pan ofynnir amdani, a dilyn cyfarwyddiadau hysbysiad cydymffurfio.
3. Dyletswydd bioamrywiaeth statudol sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gyfrannu at gyflawni'r targedau bioamrywiaeth statudol.

---

[1] Roedd yr archwiliad dwfn yn cynnwys cynrychiolaeth allanol gan Cyfoeth Naturiol Cymru, RSPB Cymru, Prifysgol Abertawe, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Prifysgol Bangor, Dŵr Cymru, Prifysgol Caerdydd, Environment Systems, Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur, Prifysgol Hull, Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru a'r Grŵp Tirweddau Byw.

Byddwn yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyrff a gaiff eu heffeithio gydol y cyfnod ymgynghori, a bydd ymatebion i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn ei hun yn ategu hyn. Bydd asesiad pellach ar gynnwys yn cael ei gynnal yn dilyn yr ymarfer hwn wrth gyflwyno'r Asesiad Effaith Integredig Llawn

## Effaith

- *Beth yw'r prif ddadleuon o blaid ac yn erbyn y cynnig? Cyfeiriwch at dystiolaeth; dylech gydnabod bylchau sylweddol yn ein gwybodaeth a disgrifio unrhyw gynlluniau i'w llenwi.*

Mae corff sylweddol o ymchwil a thystiolaeth o ffynonellau ar lefel Cymru, y DU a rhyngwladol sy'n dangos yn glir y berthynas rhwng yr amgylchedd naturiol a llesiant. Mae adolygiad diweddar ar economeg bioamrywiaeth dan arweiniad yr Athro Syr Partha Dasgupta yn crynhoi'r cyd-destun hwn i'r dim, gan ddweud:

> *Nature is essential for human existence and good quality of life. Most of nature's contributions to people are not fully replaceable, and some are irreplaceable.*
>
> *Nature across most of the globe has now been significantly altered by multiple human drivers, with the great majority of indicators of ecosystems and biodiversity showing rapid decline.*
>
> *Biodiversity is declining faster than at any time in human history. Current extinction rates, for example, are around 100 to 1,000 times higher than the baseline rate, and they are increasing. Such declines are undermining Nature's productivity, resilience and adaptability, and are in turn fuelling extreme risk and uncertainty for our economies and well-being.*

Hefyd, mae gennym dystiolaeth sylweddol o'r angen i fynd i'r afael â'r niwed amgylcheddol a achosir gan ffynonellau niferus, gan gynnwys rhai amaethyddol, masnachol, domestig, diwydiannol a thrafnidiaeth. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb datganoledig i gyflawni targedau statudol yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, a sicrhau bod pawb yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth sydd ar waith i gyflawni'r nodau hyn a bod y ddeddfwriaeth honno'n parhau i fod yn effeithiol.

- *Pa mor eang ydych chi wedi archwilio'r dadleuon hyn drwy gynnwys a chydweithio?*

Mae ein cynigion cychwynnol wedi'u seilio ar waith ymgysylltu ac ymgynghori blaenorol, ond rydym yn croesawu barn bellach ar yr effeithiau a nodwyd, y dystiolaeth a gyflwynwyd ac unrhyw feysydd nad ydym wedi'u hystyried eto yn ystod gwaith ymgysylltu'r papur gwyn.

## Costau ac Arbedion

Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn yn cael ei gynnal i edrych ar y dadansoddiad cost a budd. Bydd asesiad effaith rheoleiddiol drafft yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r papur gwyn.

Bydd yr Asesiad Effaith Integredig Llawn a fydd yn cyd-fynd â bil yn y dyfodol yn adlewyrchu adborth ar y Papur Gwyn ac adborth o waith ymgysylltu parhaus.

Bydd costau ac arbedion y cynigion yn cael eu hasesu fel rhan o Ddadansoddiad Cost a Budd ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a gaiff eu cyhoeddi ochr yn ochr â bil yn y dyfodol.

## Mecanwaith

Y cynnig yw cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac Asesiad Effaith Integredig yn cael ei gwblhau ochr yn ochr â bil yn y dyfodol.

## ADRAN 8. CASGLIAD

### 8.1 Sut y mae'r bobl y mae'r cynnig fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Ym mis Mawrth 2019 lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar **Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r UE**, gan ofyn am eich barn ynghylch sut i ddarparu fframwaith llywodraethu amgylcheddol effeithiol yng Nghymru ar ôl ymadael â'r UE (ymgynghoriad 2019). Yn dilyn ymgynghoriad 2019, comisiynodd Llywodraeth Cymru grŵp gorchwyl o randdeiliaid, sef "Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid Llywodraethu Amgylcheddol" (y Grŵp Gorchwyl), i helpu i ddatblygu opsiynau ar gyfer trefniadau llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru. Cadeiriwyd y Grŵp Gorchwyl gan yr Athro Robert Lee ac roedd cyrff ac academyddion blaenllaw yn aelodau ohono.

Canlyniadau ymgynghoriad 2019, grŵp gorchwyl 2020 a'r trafod cyffredinol â rhanddeiliaid a fu gydol 2021-2023 yw sail y cynigion ar gyfer egwyddorion amgylcheddol a'r corff llywodraethu amgylcheddol.

Yn haf 2023 bu'r Gweinidog Newid Hinsawdd yn gweithio gyda grŵp o arbenigwyr ac ymarferwyr blaenllaw ar Archwiliad Dwfn o Fioamrywiaeth. Diben yr Archwiliad Dwfn oedd llunio argymhellion ar gyfer amddiffyn a rheoli'n effeithiol o leiaf 30% o'n tir, ein dŵr croyw a'n môr er lles natur erbyn 2030. Un o brif argymhellion y grŵp oedd " *datblygu deddfwriaeth sylfaenol i osod targedau cyffredinol ar gyfer adfer natur a sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol i'w osod mor gynnar â phosibl yn nhymor y Senedd hon, a chyfres o dargedau adfer natur statudol manylach ar gyfer cyflawni canlyniadau amgylcheddol a darparu cyfraniad Cymru at y fframwaith bioamrywiaeth byd-eang ar ôl 2020"*. Nod y cynigion polisi yw rhoi'r argymhelliad hwn ar waith.

Bydd Papur Gwyn yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2024 ar y cynigion polisi a bydd yn cael ei gefnogi trwy drafod uniongyrchol ehangach â rhanddeiliaid.

### 8.2 Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, y rhai cadarnhaol a'r rhai negyddol?

Mae cynigion y Bil yn ceisio cefnogi dyheadau Llywodraeth Cymru ynghylch diogelu'r amgylchedd a gwrthdroi'r colledion yn ein bioamrywiaeth. Wrth wneud hynny, byddant yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bobl a chymunedau, yn enwedig o ran iechyd unigolion, manteision i bobl sy'n gweithio yng Nghymru, yn ogystal â chydlyniant cymunedol a chymdeithasol cyffredinol.

Bydd effeithiau'r Bil yn dangos ymhellach gyfraniad Gweinidogion Cymru at egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, ac mae cynigion wedi'u seilio ar y saith nod llesiant yn y ddeddf.

Mae ymgynghori ac ymgysylltu blaenorol wedi dangos cefnogaeth glir ar gyfer rhagor o weithredu ar draws tri maes y cynigion.

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:**

- **yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a / neu,**
- **yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

- **Cymru Gydnerth**: Bydd y cynigion yn sbarduno effaith sylweddol a chadarnhaol leol, ranbarthol a chenedlaethol ar amgylchedd a gweithrediad ecosystemau Cymru drwy sicrhau mwy o gydymffurfio â'r gyfraith amgylcheddol bresennol a chryfhau'r gwaith o'i rhoi ar waith, yn ogystal â chyflwyno targedau penodol i wella'r ecosystem.

- **Cymru lewyrchus**: Bydd cryfhau trefniadau llywodraethu ac adfer bioamrywiaeth yn cefnogi nifer o bolisïau sy'n anelu at greu economi werdd amgylcheddol gynaliadwy a llewyrchus. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo coedwigaeth ac amaethyddiaeth gynaliadwy, datblygu mentrau economi gylchol gyda'r nod o leihau gwastraff a'r defnydd o adnoddau, yn ogystal â swyddi a busnesau newydd yn yr economi werdd. Gall diogelu ac adfer ecosystemau roi bywoliaethau cynaliadwy i gymunedau sy'n dibynnu ar adnoddau naturiol am eu hincwm a'u cyflenwad bwyd, a gall ecosystemau iach helpu i glustogi cymunedau rhag effeithiau trychinebau naturiol, megis llifogydd, stormydd a sychder.

- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.** Byddai diogelu ecosystemau naturiol a bioamrywiaeth yn gwella cyfalaf diwylliannol Cymru ac yn darparu cyfleoedd pellach i gynnal gweithgareddau awyr agored. Byddwn yn sicrhau safonau cyfartal yn Gymraeg a Saesneg drwy weithredu'r cynigion a gynhwysir yn y Bil, gan gynnwys wrth ystyried penodiadau i'r corff llywodraethu.

- **Cymru Iachach**: Bydd cynigion y Bil yn cyfrannu at wneud Cymru'n iachach drwy gydymffurfio'n well â deddfwriaeth sy'n sbarduno gwelliannau yn ansawdd yr aer a'r dŵr, a fydd yn arwain at ostyngiad mewn clefydau anadlol a cardiofasgwlaidd ac mewn problemau iechyd eraill sy'n gysylltiedig â llygredd. At hynny, mae adfer a gwella natur yn gwella mynediad at fannau gwyrdd, gan annog pobl i fod yn fwy egnïol. Gall hynny leihau'r risg o ordewdra, clefyd y galon, a chyflyrau iechyd cronig eraill, yn ogystal â chreu manteision sylweddol i iechyd meddwl.

- **Cymru sy'n fwy cyfartal**: Bydd cryfhau'r mesurau i warchod yr amgylchedd ac adfer bioamrywiaeth yn gwella iechyd a lles pawb, gyda'r rheini sy'n dioddef mwy na'u siâr o effeithiau llygredd oherwydd eu hiechyd neu resymau economaidd gymdeithasol yn debygol o deimlo eu heffeithiau fwyaf.

- **Cymru o Gymunedau Cydlynus**: Gall cysylltu â natur a chymryd rhan mewn gweithgareddau amgylcheddol feithrin ymdeimlad o gymuned ac o rannu gwerthoedd â thrigolion. Mae parciau, gerddi cymunedol a mannau gwyrdd eraill yn rhoi cyfleoedd i bobl ymgynnull, cymdeithasu a meithrin perthynas a gall dod i gysylltiad â natur hyrwyddo gwytnwch yn wyneb adfyd a meithrin ymdeimlad o obaith ac optimistiaeth.

- **Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang:** Rydym yn wynebu argyfyngau natur a hinsawdd ar lefel fyd-eang, gyda gweithgareddau dynol yn niweidio'r hinsawdd ar raddfa na welwyd ei thebyg, gan arwain at dywydd mwy eithafol, cynnydd yn lefel y môr a rhewlifoedd sy'n toddi. Mae un o bob chwe rhywogaeth yng Nghymru (o'r rhai sy'n cael eu monitro) mewn perygl o ddiflannu yng Nghymru. Mae'r Bil yn dangos ymrwymiad Gweinidogion Cymru tuag at yr amgylchedd a bioamrywiaeth fyd-eang, ac yn atgyfnerthu statws Cymru yn y gymuned ryngwladol fel gwlad sydd wedi ymroi i gynaliadwyedd ac i weithredu dros yr amgylchedd.

**Effeithiau negyddol**

Mae'r effeithiau negyddol sy'n cael eu sbarduno gan y cynigion, yn eu hanfod yn 'gyfaddawdau' ac yn gostau cyfle. Mae cryfhau'r mesurau i warchod yr amgylchedd yn effeithio ar yr opsiynau sydd ar gael i ddatblygu tir gan eu bod yn ei gwneud yn anoddach i ddatblygwyr fodloni safonau. Fodd bynnag, mae hon yn agwedd bwysig ar gefnogi datblygu cynaliadwy, ac mae'n iawn y dylai unrhyw ddatblygiadau gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol Cymru. Hefyd, dylid gwahardd datblygiadau a fyddai'n cyfrannu at leihau bioamrywiaeth (a thrwy hynny gwneud targedau'n anoddach neu'n amhosibl eu cyflawni). Er y gallai fod goblygiadau economaidd i hyn o ran yr hyn y ceir ac na cheir ei wneud ar dir ledled Cymru, mae hyn serch hynny yn gyson â gweledigaeth ehangach Gweinidog Cymru ar gyfer datblygu cynaliadwy.

Bydd graddau'r effaith hon yn cael ei phrofi ymhellach drwy'r ymgynghori a'r ymgysylltu sydd ar y gweill, gan gynnwys trwy'r papur Gwyn arfaethedig.

**8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac wedi iddo gael ei gwblhau?**

Mae'r cynigion wrthi'n cael eu ffurfio ac yn dal i gael eu datblygu, gan gynnwys trwy ymgynghori â rhanddeiliaid. Wrth i ni ddatblygu'r polisi ymhellach, byddwn yn ystyried sut y dylid adolygu'r cynigion ar ôl eu gweithredu. Gan y bydd y cynigion yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol, caiff Bil ei gyflwyno yn y Senedd yn ystod y tymor hwn. Felly bydd pob Fframwaith yn cael ei fonitro, ei werthuso a'i adolygu'n rheolaidd.

## ADRAN 9. DATGANIAD

**Datganiad**

Rwyf yn fodlon fod effaith y weithred a gynigir wedi cael ei hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

Enw'r Uwch Swyddog Cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr: Spencer Conlon

Adran: Tirweddau, Natur a Choedwigaeth

Dyddiad: 15/01/2024

## ATODIAD A – ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Dewisol wrth arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau.

### 1. Amcanion polisi

Ein hamcanion polisi ar gyfer y Bil arfaethedig yw ategu a gwella'r fframwaith polisi a deddfwriaeth amgylcheddol bresennol drwy:

I. ymgorffori set o egwyddorion amgylcheddol sylfaenol yng nghyfraith Cymru, a fydd yn cael eu hystyried wrth wraidd penderfyniadau llunio polisïau a chynigion deddfwriaethol.
II. sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol newydd, a fydd yn dwyn awdurdodau cyhoeddus Cymru i gyfrif am unrhyw ddiffyg cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, gan gynnwys drwy gamau gorfodi.
III. gosod targedau bioamrywiaeth effeithiol; gan sicrhau ein bod yn cymryd camau gweithredol i ddiogelu ac adfer bioamrywiaeth ledled Cymru.

Gyda'i gilydd, bydd y cynigion yn sbarduno gweithredu wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur trwy sbarduno gwelliant amgylcheddol o'r adeg y caiff polisïau eu creu hyd at ddarparu trosolwg o'r holl ddeddfwriaeth amgylcheddol.

### 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Datblygwyd y cynigion sydd yn y Papur Gwyn yn sgil adborth i'r Ymgynghoriad ar Egwyddorion Amgylcheddol a Llywodraethu Amgylcheddol ar ôl Brexit a lansiwyd yn 2019.

Ymgynghorir ar y cynigion a nodir yn y Papur Gwyn ynghyd ag Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft ac Asesiad Effaith Integredig drafft.

Rydym yn ystyried y ffordd orau o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc wrth ddatblygu ein dull gweithredu, ar gyfer y ffordd y byddwn yn ceisio ymgysylltu â phlant a phobl ifanc neu eu cynrychiolwyr yn ystod y cyfnod ymgynghori, yn enwedig mewn perthynas â'r elfennau hynny o'r agenda ddiwygio a allai fod yn fwy perthnasol iddyn nhw.

Fel rhan o hyn, byddwn yn gweithio gydag arbenigwyr perthnasol yn Llywodraeth Cymru i lunio dull wedi'i dargedu a fydd yn rhoi cyfle uniongyrchol i blant a phobl ifanc gyfrannu at ein syniadau polisi.

- **Pa waith cyfranogol gyda phlant a phobl ifanc ydych chi wedi'i ddefnyddio i lywio eich polisi? Os nad ydych chi wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, esboniwch pam.**[1]

Wrth i'r polisi ddatblygu, rydym yn gobeithio sefydlu cysylltiadau â'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant. Rydym yn bwriadu ymgysylltu'n uniongyrchol â swyddfa'r Comisiynydd Plant hefyd wrth ddatblygu cynigion ar gyfer y Bil i ofyn am eu hadborth a'u barn. Byddwn yn parhau â'r berthynas waith hon wrth i ni symud ymlaen drwy broses y Bil a symud tuag at weithredu.

## 3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

Mae'r cynigion polisi'n rhan o'n strategaeth ehangach i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, a bydd methu â gwneud hynny yn effeithio'n sylweddol ar genedlaethau'r dyfodol.

Mae plant yn agored i niwed mewn ffordd unigryw o ran effeithiau niwed amgylcheddol a newid hinsawdd. Wrth i'w cyrff a'u hymennydd ddatblygu gallant fod yn fwy agored i effeithiau niweidiol llygredd a digwyddiadau tywydd eithafol. Yn ogystal, mae plant yn treulio mwy o amser yn yr awyr agored nag oedolion, sy'n cynyddu eu cysylltiad â pheryglon amgylcheddol. Mae risgiau penodol yn cynnwys:

- Mae plant yn fwy tebygol o ddatblygu salwch anadlol, fel asthma a niwmonia, yn sgil llygredd aer.[2]
- Gall newid hinsawdd amharu ar gynhyrchu a dosbarthu bwyd, gan arwain at ansicrwydd bwyd a diffyg maeth. Efallai na fydd plant yn cael y maetholion sydd eu hangen arnynt i dyfu a datblygu'n iawn, a all arwain at ganlyniadau gydol oes i'w hiechyd a'u lles.[3]
- Gall digwyddiadau tywydd eithafol ddifrodi ysgolion ac amharu ar addysg. Efallai y bydd yn rhaid i blant golli'r ysgol i helpu eu teuluoedd neu i ddod o hyd i loches ddiogel. Gall hyn olygu colli cyfleoedd dysgu a rhwystro eu cynnydd addysgol.
- Mae plant yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan y straen seicolegol sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd. Efallai y byddant yn profi ofn, pryder ac anobaith am y dyfodol.[4] Gallai'r problemau emosiynol hyn ymyrryd â'u datblygiad cymdeithasol ac emosiynol.

Mae gan Lywodraeth Cymru gasgliad o bolisïau a deddfwriaeth eisoes i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur a lliniaru'r risgiau hyn, ond os nad yw Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus Cymru'n cyflawni eu dyletswyddau statudol ar yr amgylchedd, gellid achosi niwed amgylcheddol na fydd yn lliniaru'r risgiau hyn mwyach. Felly, byddai gan bobl ifanc ddiddordeb yn y ffordd mae awdurdodau cyhoeddus yn cael eu dwyn i gyfrif am gydymffurfio â'u dyletswyddau statudol amgylcheddol.

Rôl y corff llywodraethu fydd sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol ehangach, yn ogystal â goruchwylio gweithrediad ac effeithiolrwydd ehangach y gyfraith.

Yn yr un modd, mae gan bobl ifanc ddiddordeb hefyd mewn deall yr ymrwymiad i adfer bioamrywiaeth yng ngoleuni'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae gosod targedau

---

[2] Air quality and respiratory health in children - PMC (nih.gov)
[3] Maternal and Child Nutrition (thelancet.com)
[4] Climate anxiety in children and young people and their beliefs about government responses to climate change: a global survey - The Lancet Planetary Health

bioamrywiaeth yn darparu marcwyr o fwriad nid yn unig i ddangos cryfder y gefnogaeth i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, ond ymrwymiad cyhoeddus i weithredu.

Rydym yn bwriadu parhau i gasglu manylion nifer o astudiaethau a phapurau ymchwil ar effeithiau gwrthdroi ac adfer bioamrywiaeth. Wrth i dystiolaeth newydd ddod i'r fei, bydd yr asesiad effaith hwn yn cael ei ddiweddaru.

- **Sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y'u nodir yn erthyglau CCUHP a'i Brotocolau Dewisol? Cyfeiriwch at yr erthyglau i weld pa rai sy'n berthnasol i'ch polisi chi.**

Ar sail syniadau cynnar mewn perthynas â'r cynigion polisi, rydym wedi ystyried sut mae'r cynigion sydd yn y Papur Gwyn yn effeithio ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ("CCUHP"). Yr Erthyglau a allai fod yn berthnasol yn ein barn ni yw Erthyglau 1, 2, 3, 6, 12, 13, 15, 23, 27, 31 a 36. Aseswyd nad yw gweddill yr Erthyglau'n berthnasol.

Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol uniongyrchol ar blant neu bobl ifanc sy'n deillio o'r cynigion yn y Papur Gwyn, er y bydd hyn yn cael ei archwilio'n fanylach yn ystod y gwaith ymgysylltu a grybwyllwyd yn flaenorol.

| Erthyglau neu Brotocol Dewisol CCUHP | Gwella (X) | Herio (X) | Esboniad |
|---|---|---|---|
| Erthygl 1: Mae gan bawb dan 18 oed yr hawliau sydd yn y Confensiwn hwn. | X | | Mae'r Papur Gwyn yn cyflwyno cynigion i sicrhau y gall y cyhoedd leisio cwyn gerbron y Corff Llywodraethu Amgylcheddol newydd mewn modd teg a rhydd. Yn ystod y gwaith o ddatblygu polisi, byddwn yn egluro'r camau y byddwn yn eu cymryd ymhellach i sicrhau bod gan bobl ifanc fynediad at y prosesau sydd ar gael iddynt, ac ymwybyddiaeth ohonynt. |
| Erthygl 2: Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hil, ei grefydd, ei alluoedd, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud a pha fath bynnag o deulu y daw ohono. | X | | |
| 3 - Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn | X | | Mae'r cynigion yn ceisio hyrwyddo lles plant yn anuniongyrchol trwy gryfhau cyfraith amgylcheddol ac adfer bioamrywiaeth. |
| Erthygl 6: Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach | X | | Mae'r cynigion yn ceisio hyrwyddo iechyd plant yn anuniongyrchol trwy gryfhau cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol, yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd aer a dŵr. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Erthygl 12: Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried. | X | | Bydd plant a phobl ifanc yn cael cyfle i gyfrannu at y cynigion hyn drwy'r broses ymgynghori, yn ogystal ag ymgysylltu wedi'i dargedu. |
| Erthygl 13: Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw ac i eraill | X | | Bydd plant a phobl ifanc yn cael cyfle i gyfrannu gwybodaeth a'u syniadau i'r cynigion hyn drwy'r broses ymgynghori, yn ogystal ag ymgysylltu wedi'i dargedu. |
| 15 - mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac i ymuno â grwpiau a sefydliadau, onid yw hyn yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau | X | | Bydd ceisio sicrhau cydymffurfiaeth bellach â chyfraith amgylcheddol, yn ogystal ag adfer bioamrywiaeth, yn gwella mannau gwyrdd ac yn rhoi cyfle pellach i blant gyfarfod. |
| Erthygl 23: Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal a arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol | X | | Mae tystiolaeth yn dangos y gall canlyniadau iechyd negyddol sy'n gysylltiedig â llygredd effeithio'n anghymesur ar blant a phobl anabl. Bydd cryfhau cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol yn cynorthwyo'r grŵp hwn ymhellach. |
| 27 - mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio darparu hyn. | X | | Bydd sbarduno cydymffurfiaeth bellach â chyfraith amgylcheddol, yn ogystal ag adfer bioamrywiaeth, yn gwella mannau gwyrdd ac yn rhoi mwy o gyfle i blant ddiwallu anghenion meddyliol a chorfforol. |
| 31 - Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno ag mewn ystod eang o weithgareddau | X | | Bydd sbarduno cydymffurfiaeth bellach â chyfraith amgylcheddol, yn ogystal ag adfer bioamrywiaeth, yn gwella mannau gwyrdd ac yn rhoi mwy o gyfle i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 36 - dylai plant gael eu gwarchod rhag gweithgarwch a allai amharu ar eu datblygiad | X | | Mae tystiolaeth yn dangos y gall canlyniadau iechyd negyddol sy'n gysylltiedig â llygredd effeithio'n anghymesur ar blant a phobl anabl. Bydd cryfhau cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol yn cynorthwyo'r grŵp hwn ymhellach. |

4. **Cyngor i'r gweinidog a phenderfyniad**

Bydd y canfyddiadau a'r dadansoddiad a ddaw o'n Hasesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael eu hintegreiddio yn ein cyngor i'r gweinidog i lywio ei benderfyniad.

5. **Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant**

- *Yn dilyn penderfyniad y gweinidog, dylid cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wefan Llywodraeth Cymru.*

- *Anfonwch adrannau 1 ac 8 o'ch Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (Atodiad A) at eich rheolwr gwe adrannol i'w gyhoeddi.*

---

*For further information and support on this process, please visit the Children's Rights Intranet Page which contains a range of resources.*

---

*Rhaid anfon **pob** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'i gwblhau i flwch negeseuon e-bost CRIA@llyw.cymru hefyd.*

6. **Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc**

**Os ydych wedi gofyn am farn plant a phobl ifanc ar eich cynnig, sut fyddwch chi'n rhoi gwybod iddyn nhw am y canlyniad?**

Drwy'r broses ymgynghori, rydym yn trafod y ffordd orau o ofyn am farn pobl ifanc am y cynigion a byddwn yn diweddaru'r adran hon pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael.

7. **Monitro ac Adolygu**

Mae'r cynigion mewn cam ffurfiannol ac maen nhw'n dal i gael eu datblygu, gan gynnwys drwy ymgynghori â rhanddeiliaid. Wrth i ni ddatblygu'r dull polisi ymhellach, byddwn yn ystyried sut y dylid adolygu'r cynigion ar ôl eu gweithredu. Gan y bydd y cynigion yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol, bydd Bil yn cael ei gyflwyno yn y Senedd yn ystod y tymor hwn. Ar ôl ei weithredu, bydd yn destun monitro, gwerthuso ac adolygu rheolaidd. At hynny, bydd

yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw ddeddfwriaeth eilaidd a all gael ei chyflwyno.

## ATODIAD B – ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

### 1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Mae cynigion y Bil yn ceisio cefnogi dyheadau Llywodraeth Cymru ynghylch diogelu'r amgylchedd a gwrthdroi colli bioamrywiaeth. Wrth wneud hynny, byddant yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar ddinasyddion ledled Cymru, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Bydd hefyd yn cefnogi datblygiad pellach Llywodraeth Cymru yn anuniongyrchol i sicrhau 'pontio teg' oddi wrth economi'r gorffennol a'i thanwydd ffosil i ddyfodol carbon isel newydd, lle rydym yn symud i Gymru lanach, gryfach, decach heb adael neb ar ôl.

Mae tystiolaeth yn dangos yn glir bod effeithiau mawr yn cael eu teimlo yn sgil newid hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithafol yng Nghymru. Mae arbenigwyr yn cydnabod nad yw newid hinsawdd yn ffenomen sy'n digwydd ar ei phen ei hun, ond ar ben hynny mae yna gysylltiad agos â systemau planedol eraill fel bioamrywiaeth, cylchoedd dŵr, a defnydd tir.[5]

Ni fydd y risgiau iechyd a achosir gan newid hinsawdd yn digwydd yn gyfartal ledled y DU, o ran lleoliad a chenhedlaeth. Gallai rhai bygythiadau, fel afiechydon newydd a gludir gan fector, sychder, a thanau gwyllt, daro rhanbarthau deheuol yn gyntaf. Bydd eraill, fel cynnydd yn lefel y môr a llifogydd, yn effeithio'n bennaf ar drefi arfordirol, ardaloedd isel, a gorlifdiroedd. Bydd poblogaeth sy'n heneiddio yn cynyddu bregusrwydd cenedlaethol ymhellach i faterion iechyd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn y degawdau nesaf. Bydd y risgiau hyn yn gwaethygu gwahaniaethau ac anghydraddoldebau iechyd sy'n bodoli eisoes. Pobl sydd â rheolaeth gyfyngedig dros eu hamgylchedd, eu gallu i addasu neu allu i ymateb i fygythiadau newydd fydd yn wynebu'r perygl mwyaf, gan gynnwys plant, pobl ag anableddau, y rhai sy'n profi digartrefedd, ac unigolion sy'n byw mewn lleoliadau penodol fel carchardai, ysgolion a chyfleusterau gofal cymdeithasol.[6]

Rydym wedi ystyried manteision y cynigion yn y cyd-destun hwn, a chredwn y byddant yn arbennig o ddifrifol o ran iechyd unigolion, buddion i bobl sy'n gweithio yng Nghymru, yn ogystal â chydlyniant cymunedol a chymdeithasol cyffredinol.

Mae'r buddion o ran iechyd unigol yn cynnwys:

- Gwell cydymffurfiaeth â deddfwriaeth yn sicrhau gwelliannau mewn ansawdd aer a dŵr, a fydd yn arwain at ostyngiad mewn clefydau anadlol a chardiofasgwlaidd, yn ogystal â phroblemau iechyd eraill sy'n gysylltiedig â dod i gysylltiad â llygredd.[7]
- Bydd adfer a gwella natur yn darparu mynediad i fannau gwyrdd, gan annog pobl i fod yn fwy egnïol, a gallai hyn leihau'r risg o ordewdra, clefyd y galon, a chyflyrau iechyd cronig eraill.[8]

---

[5] PHW-Climate-Change-HIA-Summary-Report-English-Final-10_2023-002.pdf (phwwhocc.co.uk)
[6] Health Effects of Climate Change in the UK: state of the evidence 2023 (publishing.service.gov.uk)
[7] Health matters: air pollution - GOV.UK (www.gov.uk)
[8] (PDF) Urban green spaces and health - a review of evidence (researchgate.net)

- Dangoswyd bod treulio amser ym myd natur yn lleihau lefelau straen, yn lleihau pryder, ac yn gwella hwyliau.[9]

Mae'r buddion i bobl sy'n gweithio yng Nghymru yn cynnwys:
- Gall diogelu ac adfer ecosystemau ddarparu bywoliaeth gynaliadwy i gymunedau sy'n dibynnu ar adnoddau naturiol ar gyfer eu hincwm a'u diogeledd bwyd.[10]
- Gall ecosystemau iach helpu i amddiffyn cymunedau rhag effeithiau trychinebau naturiol, megis llifogydd, stormydd a sychder.[11]
- Creu swyddi gwyrdd: Gall buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy, amaethyddiaeth gynaliadwy, a diwydiannau ecogyfeillgar eraill greu swyddi newydd a hybu twf economaidd.[12]

Mae'r buddion i gymunedau a chydlyniant cymdeithasol yn cynnwys:
- Gall cysylltu â natur a chymryd rhan mewn gweithgareddau amgylcheddol feithrin ymdeimlad o werthoedd cymunedol a rennir ymhlith preswylwyr.[13]
- Rhyngweithio cymdeithasol gwell: Mae parciau, gerddi cymunedol a mannau gwyrdd eraill yn rhoi cyfle i bobl ymgynnull, cymdeithasu a meithrin perthynas ag eraill.

Gall cysylltiad â natur hyrwyddo cydnerthedd yn wyneb adfyd ac adeiladu ymdeimlad o obaith ac optimistiaeth.[14]

Wrth i'r polisi gael ei ddatblygu, bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddiweddaru. Rhoddir ystyriaeth bellach i'r effeithiau hyn yn erbyn pob nodwedd isod.

## 2. **Cofnod o Effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig:**

### Oedran

I blant a phobl ifanc, yr ystyriwn fel y rhai rhwng 0 a 18 oed, mae tystiolaeth yn awgrymu eu bod yn agored i niwed o ran yr amgylchedd a newid hinsawdd mewn ffordd wahanol i bawb arall. Wrth i'w cyrff a'u hymennydd ddatblygu gallant fod yn fwy agored i effeithiau niweidiol llygredd a digwyddiadau tywydd eithafol. Yn ogystal, mae plant yn treulio mwy o amser yn yr awyr agored nag oedolion, sy'n cynyddu eu cysylltiad â pheryglon amgylcheddol. Mae risgiau penodol yn cynnwys:

---

[9] Nature and mental health: An ecosystem service perspective | Science Advances
[10] Economics of Ecosystems and Biodiversity teebweb.org
[11] download (undrr.org)
[12] Final Report - The Economics of Biodiversity: The Dasgupta Review - GOV.UK (www.gov.uk)
[13] Interrelations between sense of place, organizational commitment, and green neighborhoods - ScienceDirect
[14] Nature-based outdoor activities for mental and physical health: Systematic review and meta-analysis - ScienceDirect

- Mae plant yn fwy tebygol o ddatblygu salwch anadlol, fel asthma a niwmonia, yn sgil llygredd aer.[15]
- Gall newid hinsawdd amharu ar gynhyrchu a dosbarthu bwyd, gan arwain at ddiffyg diogeledd bwyd a diffyg maeth. Efallai na fydd plant yn cael y maetholion sydd eu hangen arnynt i dyfu a datblygu'n iawn, a gall hyn arwain at ganlyniadau gydol oes i'w hiechyd a'u lles.[16]
- Gall digwyddiadau tywydd eithafol ddifrodi ysgolion ac amharu ar addysg. Efallai y bydd yn rhaid i blant beidio â mynd i'r ysgol er mwyn helpu eu teuluoedd neu ddod o hyd i loches ddiogel. Gall hyn arwain at golli cyfleoedd dysgu a rhwystro eu cynnydd addysgol.
- Mae plant yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan y straen seicolegol sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd. Efallai y byddant yn profi ofn, gorbryder ac anobaith am y dyfodol.[17] Gallai'r problemau emosiynol hyn ymyrryd â'u datblygiad cymdeithasol ac emosiynol.

Mae gan Lywodraeth Cymru eisoes gasgliad o bolisïau a deddfwriaeth i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur a lliniaru'r risgiau hyn, ond os nad yw Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus Cymru'n cyflawni eu dyletswyddau statudol ar yr amgylchedd, gellid achosi niwed amgylcheddol na fydd yn lliniaru'r risgiau hyn mwyach. Felly, byddai gan bobl ifanc ddiddordeb yn y ffordd mae awdurdodau cyhoeddus yn cael eu dwyn i gyfrif am gydymffurfio â'u dyletswyddau statudol amgylcheddol.

Rôl y corff llywodraethu fydd sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol ehangach, yn ogystal â goruchwylio gweithrediad ac effeithiolrwydd ehangach y gyfraith.

Yn yr un modd, mae gan bobl ifanc ddiddordeb hefyd mewn deall yr ymrwymiad i adfer bioamrywiaeth yng ngoleuni'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae gosod targedau bioamrywiaeth yn darparu marcwyr o fwriad nid yn unig i ddangos cryfder y gefnogaeth i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, ond ymrwymiad cyhoeddus i weithredu.

Rydym yn bwriadu parhau i gasglu manylion nifer o astudiaethau a phapurau ymchwil ar effeithiau gwrthdroi ac adfer bioamrywiaeth. Wrth i dystiolaeth newydd ddod i'r fei, bydd yr asesiad effaith hwn yn cael ei ddiweddaru.

I'r rhai rhwng oedran ifanc ac oedran cyfartalog ymddeol (18-64), bydd manteision iechyd a chymdeithasol anuniongyrchol yn deillio o'r cynigion sy'n debyg i'r rhai a nodwyd mewn perthynas â phlant. Yn ogystal, gan fod y grŵp hwn yn bobl o 'oedran gweithio' yn bennaf, bydd manteision penodol i'r grŵp hwn, gan gynnwys;

- Gall amddiffyn ac adfer ecosystemau ddarparu bywoliaeth gynaliadwy i gymunedau sy'n dibynnu ar adnoddau naturiol ar gyfer eu hincwm a'u diogeledd bwyd.[18]
- Gall ecosystemau iach helpu i amddiffyn cymunedau rhag effeithiau trychinebau naturiol, megis llifogydd, stormydd a sychder.[19]

---

[15] Air quality and respiratory health in children - PMC (nih.gov)
[16] Maternal and Child Nutrition (thelancet.com)
[17] Climate anxiety in children and young people and their beliefs about government responses to climate change: a global survey - The Lancet Planetary Health
[18] Economics of Ecosystems and Biodiversity teebweb.org
[19] download (undrr.org)

- Creu swyddi gwyrdd: Gall buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy, amaethyddiaeth gynaliadwy, a diwydiannau ecogyfeillgar eraill greu swyddi newydd a hybu twf economaidd.[20]

Ar gyfer pobl hŷn (65 oed a hŷn), yn yr un modd â phlant, mae llygredd aer a dŵr yn cael effaith arbennig o andwyol[21], yn benodol o ran clefydau anadlol a cardiofasgwlaidd. Bydd cryfhau amddiffyniadau amgylcheddol yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd pobl hŷn. Ymhellach, mae astudiaethau'n dangos bod mynediad i fannau gwyrdd yn rhoi gwell cyfle i bobl hŷn ryngweithio'n gymdeithasol, yn lleddfu straen ac yn gwella hwyliau a chanolbwyntio, gan arwain at gyfraniad sylweddol o ran llesiant pobl hŷn. [22]

Mae'r cynigion yn ceisio cryfhau'r Fframwaith Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru a brwydro yn erbyn colli bioamrywiaeth. Mae'r adran flaenorol yn amlinellu'r manteision y mae natur a'r amgylchedd yn eu darparu i bob grŵp oedran mewn cymdeithas. Bydd cyflwyno Corff Llywodraethu Amgylcheddol parhaol yn cynnig llwybr uwchgyfeirio i bob aelod o'r cyhoedd leisio cwynion am achosion posibl o dorri rheolau amgylcheddol.

Anabledd

Bydd diogelu'r amgylchedd a gwrthdroi colli bioamrywiaeth yn darparu buddion i bobl anabl. Gall cadw ansawdd aer a dŵr glân leddfu problemau anadlol a'r system imiwnedd, a allai fod yn arbennig o effeithiol i unigolion â namau neu gyflyrau iechyd sy'n effeithio ar y systemau hyn.

Mae cynnal mannau cyhoeddus sy'n gweithredu'n dda ac yn hygyrch fel parciau, llwybrau natur ac ardaloedd gwyrdd yn creu cyfleoedd ar gyfer hamdden a chysylltiad â natur i bawb. Dangoswyd bod treulio amser mewn mannau gwyrdd yn lleihau straen, yn gwella hwyliau ac yn hyrwyddo gweithgarwch corfforol, ac mae hyn oll o fudd i iechyd meddwl a chorfforol, gan gynnwys i bobl anabl.

Bydd angen i'r Corff Llywodraethu Amgylcheddol arfaethedig gynnwys amrywiaeth o arbenigwyr â chefndiroedd a safbwyntiau amrywiol. Bydd disgwyl i gadeirydd y corff ddangos ymrwymiad a chyflawniad nodedig o ran egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Wrth benodi'r cadeirydd a'r bwrdd, byddwn yn rhagweithiol wrth dargedu sectorau a sefydliadau penodol, megis Anabledd Cymru, ac Anabledd Dysgu Cymru, i'w gwneud yn ymwybodol o gyfleoedd cyflogaeth. Disgwylir i'r corff gynnal y dull hwn yn yr un modd wrth gyflogi pobl i'w sefydliad. Dylent ystyried defnyddio gwasanaethau Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl hefyd i wella eu dull o recriwtio'n gynhwysol. Disgwylir i benodiadau i fwrdd y corff gael eu gwneud gan ddefnyddio'r broses penodiadau cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru'n Arweinydd Hyderus o ran Anabledd, a thrwy broses penodiadau cyhoeddus rydym wedi ymrwymo i gyfweld unrhyw ymgeisydd sydd â nam, cyflwr iechyd, sy'n niwroamrywiol neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain os yw'n bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer rôl.

---

[20] Final Report - The Economics of Biodiversity: The Dasgupta Review - GOV.UK (www.gov.uk)
[21] The effects of air pollution on hospitalizations for cardiovascular disease in elderly people in Australian and New Zealand cities - PubMed (nih.gov)
[22] Urban Green Space and Subjective Well-Being of Older People: A Systematic Literature Review - PMC (nih.gov)

Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl Drawsryweddol)

Mae diogelu'r amgylchedd yn cefnogi lles pobl drawsryweddol. Bydd manteision cysylltiedig iechyd corfforol a meddyliol mynediad at natur o fudd i bawb, gan gynnwys unigolion trawsryweddol. Gall llygredd pellach a newid hinsawdd effeithio'n anghymesur ar gymunedau ymylol, gan gynnwys unigolion LHDTC+, a allai wynebu mwy o amlygiad oherwydd gwahaniaethau o ran tai[23] neu wahaniaethu mewn cyflogaeth[24]. Mae diogelu'r amgylchedd yn lleihau'r risgiau iechyd hyn i bawb, gan gynnwys i bobl drawsryweddol.

Rydym yn cydnabod bod profiadau pobl drawsryweddol yn amrywiol, a gall materion amgylcheddol effeithio arnynt yn wahanol yn dibynnu ar ffactorau fel hil, dosbarth a daearyddiaeth. Fodd bynnag, gall cydnabod cydgysylltiad cyfiawnder amgylcheddol a hawliau LHDTC+ greu cyfleoedd ar gyfer undod ehangach, gan gydnabod bod yr amgylchedd ar gyfer pawb, waeth beth fo'u hunaniaeth, hil neu nodwedd.

Beichiogrwydd a mamolaeth

Bydd mesurau i wella diogelu'r amgylchedd o fudd i bobl feichiog a'u babanod sy'n datblygu, gan effeithio ar eu hiechyd uniongyrchol a lles hirdymor eu plant. Manylir ar yr effeithiau penodol ar blant wrth asesu'r nodwedd 'oedran'.

O ran unigolion beichiog, maent yn fwy agored i effeithiau niweidiol llygredd aer a dŵr a allai arwain at bwysau geni isel, genedigaeth cyn amser yn ogystal â risg uwch o broblemau anadlu i fabanod sy'n datblygu. Gall dŵr halogedig olygu bod menywod beichiog a'u ffoetysau'n dod i gysylltiad â thocsinau a metelau trwm, gan effeithio ar ddatblygiad y ffoetws ac achosi problemau iechyd fel namau geni.

Ymhellach, mae darparu a diogelu mannau hamdden diogel fel parciau glân ac ardaloedd naturiol yn cynnig cyfle i ymarfer corff, lleihau straen, a gwella lles meddyliol. Mae'r ffactorau hyn yn cyfrannu at feichiogrwydd iach a lles cyffredinol.

Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr, a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid)

Mae ymchwil Llywodraeth y DU[25] yn dangos bod y rhai yn y grwpiau ethnig 'heb fod yn wyn' yn fwy tebygol o fod ar incwm isel parhaus. Yn aml, mae cymunedau incwm isel yn wynebu baich anghymesur o beryglon amgylcheddol[26]. Gall hyn gynnwys dod i gysylltiad â llygredd aer a dŵr o gyfleusterau diwydiannol, byw ger safleoedd gwastraff peryglus, a diffyg mynediad at ddŵr yfed diogel a mannau gwyrdd. Mae'r ffactorau hyn yn cyfrannu at gyfraddau uwch o broblemau iechyd fel asthma, canser a chlefyd y galon yn y cymunedau hyn.

[23] LGBTQ+ and Homelessness - Statistics and Support | Crisis UK
[24] lgbt_in_britain_work_report.pdf (stonewall.org.uk)
[25] Persistent low income - GOV.UK Ethnicity facts and figures (ethnicity-facts-figures.service.gov.uk)
[26] Disparities in the Impact of Air Pollution | American Lung Association

Mae ymchwil yn dangos hefyd bod canlyniadau i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn wael o gymharu â grwpiau ethnig eraill, a allai ddeillio o ganlyniadau byw ar safleoedd Teithwyr neu oherwydd teithio, yn ogystal â gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol. Pan fydd problemau iechyd yn codi, mae problemau hefyd o ran cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd, cofrestru ar gyfer gwasanaethau oherwydd gwahaniaethu neu rwystrau iaith a llythrennedd, a phroblemau sy'n gysylltiedig â diffyg ymddiriedaeth gan arwain at ddiffyg ymgysylltiad ag ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus[27].

Crefydd, cred a diffyg cred

Ni ddaethpwyd o hyd i lawer o lenyddiaeth ar effeithiau diogelu'r amgylchedd ar gred grefyddol.

Rhyw / Rhywedd

Er ein bod yn disgwyl i'r Bil gael effaith gadarnhaol o ran rhyw / rhywedd, rydym yn cydnabod y gallai fod rhai effeithiau llygredd aer anghymesur ar bobl sy'n gweithio yn yr awyr agored.[28]

Bydd angen i'r Corff Llywodraethu Amgylcheddol arfaethedig gynnwys amrywiaeth o arbenigwyr â chefndiroedd a safbwyntiau amrywiol. Bydd disgwyl i gadeirydd y corff ddangos ymrwymiad a chyflawniad nodedig o ran egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae disgwyl i benodiadau i'r corff gael eu gwneud gan ddefnyddio'r broses penodiadau cyhoeddus.

Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol)

Bydd y manteision iechyd corfforol a meddyliol cysylltiedig o gael mynediad at natur o fudd i bawb, gan gynnwys unigolion lesbiaidd, hoyw a deurywiol. Gall llygredd pellach a newid hinsawdd effeithio'n anghymesur ar gymunedau ymylol, gan gynnwys unigolion LHDTC+, a allai wynebu mwy o amlygiad oherwydd gwahaniaethau o ran tai[29] neu wahaniaethu mewn cyflogaeth[30]. Mae diogelu'r amgylchedd yn lleihau'r risgiau iechyd hyn i bawb, gan gynnwys y gymuned LGBTQ.

Rydym yn cydnabod bod profiadau pobl LHDTC+ yn amrywiol, a gall materion amgylcheddol effeithio arnynt yn wahanol yn dibynnu ar ffactorau fel hil, dosbarth a daearyddiaeth. Fodd bynnag, gall deall y cydgysylltiad rhwng cyfiawnder amgylcheddol a hawliau LHDTC+ greu cyfleoedd ar gyfer undod ehangach, gan gydnabod bod yr amgylchedd ar gyfer pawb, waeth beth fo'u hunaniaeth, hil neu nodwedd.

Bydd angen i'r Corff Llywodraethu Amgylcheddol arfaethedig gynnwys amrywiaeth o arbenigwyr â chefndiroedd a safbwyntiau amrywiol. Bydd disgwyl i gadeirydd y corff ddangos ymrwymiad a chyflawniad nodedig o ran egwyddorion cydraddoldeb ac

[27] Tackling inequalities faced by Gypsy, Roma and Traveller communities - Women and Equalities Committee (parliament.uk)
[28] Long-term exposure to NO2 and PM10 and all-cause and cause-specific mortality in a prospective cohort of women - PubMed (nih.gov)
[29] LGBTQ+ and Homelessness - Statistics and Support | Crisis UK
[30] lgbt_in_britain_work_report.pdf (stonewall.org.uk)

amrywiaeth. Mae disgwyl i benodiadau i'r corff gael eu gwneud gan ddefnyddio'r broses penodiadau cyhoeddus.

Priodas a phartneriaeth sifil

Rydym wedi ystyried ac nid ydym wedi nodi unrhyw oblygiadau sy'n ymwneud â gwahaniaethu anghyfreithlon mewn perthynas â phriodas neu bartneriaeth sifil sy'n gysylltiedig â'r cynigion polisi hyn.

Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed

Mae'r effeithiau penodol ar blant a phobl iau hyd at 18 oed wedi'u nodi yn yr asesiad o'r nodwedd 'oedran' a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Aelwydydd incwm isel

Yn aml, mae cymunedau incwm isel yn wynebu baich anghymesur o beryglon amgylcheddol[31]. Gall hyn gynnwys dod i gysylltiad â llygredd aer a dŵr o gyfleusterau diwydiannol, byw ger safleoedd gwastraff peryglus, a diffyg mynediad at ddŵr yfed diogel a mannau gwyrdd. Mae'r ffactorau hyn yn cyfrannu at gyfraddau uwch o broblemau iechyd fel asthma, canser a chlefyd y galon yn y cymunedau hyn.

Bydd cryfhau diogelu'r amgylchedd o fudd i'r cymunedau hyn drwy liniaru effeithiau a thebygolrwydd y peryglon amgylcheddol hyn ymhellach.

## 3. Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

**Ydych chi'n credu y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl?**

Ein hasesiad cychwynnol yw bod y cynigion yn gydnaws â hawliau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ac nad ydynt yn cael effaith negyddol ar hawliau dynol pobl. Gall y cynigion gael effaith gadarnhaol yn anuniongyrchol mewn perthynas â'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol[32], sy'n cynnwys

- yr hawl i weithio mewn amodau cyfiawn a ffafriol
- yr hawl i amddiffyniad cymdeithasol, i safon byw ddigonol ac i'r safonau uchaf posibl o les corfforol a meddyliol;

## 4. Hawliau Dinasyddion yr UE/AEE a'r Swistir

**4.1 Preswyliad – yr hawl i breswylio a hawliau eraill sy'n gysylltiedig â phreswylio: hawliau ymadael a mynediad, ceisiadau am breswyliad, cyfyngiadau ar hawliau mynediad a phreswylio;**

Ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith.

---

[31] Disparities in the Impact of Air Pollution | American Lung Association
[32] http://www.ohchr.org/EN/ProfessionalInterest/Pages/CESCR.aspx

**4.2 Cydnabyddiaeth gilyddol o gymwysterau proffesiynol – parhau i gydnabod cymwysterau proffesiynol a gafwyd gan ddinasyddion yr UE/AEE/y Swistir yn eu gwledydd (ac a gydnabyddir eisoes yn y DU);**

Ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith.

**4.3 Mynediad i systemau nawdd cymdeithasol – mae'r rhain yn cynnwys buddion, mynediad i addysg, tai, a mynediad at ofal iechyd.**

Ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith.

**4.4 Triniaeth gyfartal – mae hyn yn cynnwys peidio â gwahaniaethu, triniaeth gyfartal, a hawliau gweithwyr;**

Ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith.

**4.5 Hawliau gweithwyr - gwarantir yr un hawliau'n fras i weithwyr a phobl hunangyflogedig a gwmpesir o dan y Cytundebau Hawliau Dinasyddion ag yr oedd ganddynt pan oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth. Mae ganddynt hawl i beidio wynebu gwahaniaethu oherwydd cenedligrwydd, a'r hawl i gael triniaeth gyfartal â gwladolion y DU.**

Ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith.